

Gweithio dros

Gydraddoleb

yng Nghymru

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoleb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno): | Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg a fydd yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Enw'r swyddog: | |
| Adran: | Is-adran y Gymraeg |
| Dyddiad: | 13/06/2017 |
| Llofnod: | |

1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

1. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu effaith y cynigion polisi yn ein Papur Gwyn ar gyfer Bil y Gymraeg arfaethedig.
2. Yn ei rhaglen lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyd-fynd â hyn, fe gyhoeddodd ei strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg: *Cymraeg 2050*, sy'n rhoi braslun o'r gwaith y bydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r weledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Oherwydd maint y weledigaeth ar gyfer y Gymraeg, mae'n hanfodol adolygu'r ddeddfwriaeth y tu ôl i'r iaith.
3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n cynnwys y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer y Gymraeg. O dan y gyfraith hon, crëwyd hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff penodol drwy system o Safonau y Gymraeg ('y Safonau'). Sefydlwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg i oruchwylio'r hawliau a'u gorfodi. Mae ein Papur Gwyn yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch ein cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg.
4. Y prif amcanion polisi y tu ôl i'n cynigion yw:
 - Taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gosod a rheoleiddio dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg
 - Lleihau biwrocratiaeth a sicrhau gwerth am arian.
5. Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion sy'n ymwneud â'r trefniadau i hybu'r Gymraeg a sicrhau bod y seilwaith cywir ar waith i gyflawni hynny. Mae hefyd yn nodi ein cynigion o safbwynt y dyletswyddau a osodir ar gyrff mewn perthynas â'r Gymraeg (y Safonau ar hyn o bryd).
6. Mae'r prif gynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn fel a ganlyn:
 - Dylid sefydlu Comisiwn y Gymraeg fel prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau;
 - Dylid diddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg;
 - Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am strategaeth genedlaethol y Gymraeg, polisi cenedlaethol, rheoli rhai cyrrff sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a rhai meysydd gwaith penodedig. Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i Gomisiwn y Gymraeg;
 - Dylid cadw cysyniad Safonau'r Gymraeg;
 - Dim ond i wasanaethau y dylai'r Safonau fod yn berthnasol. Dylid galw dyletswyddau corfforaethol eraill sy'n rhan o system y Safonau ar hyn o bryd, nad ydynt yn creu hawliau gorfodadwy ar gyfer unigolion, yn 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' a dylent fod yn ddyletswyddau statudol ar gyrff a nodir yn y ddeddfwriaeth;
 - Dylid adolygu'r Safonau y mae gofyn i gyrff gydymffurfio â nhw o bryd i'w gilydd a, lle bo'n briodol, dylid gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ar eithriadau a ganiateir ar gyrff ar hyn o bryd;

- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau;
- Dylai fod yn ofynnol i'r cyrrff eu hunain ddelio â chwynion mewn perthynas â'r Safonau yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion;
- Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Dylai cyrrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon arnynt;
- Dylai'r Safonau fod yn gymwys i unrhyw gorff, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau'r Cynulliad (sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

7. Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a fydd yn rhedeg rhwng 9 Awst a 31 Hydref 2017, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried sylwadau gan randdeiliaid er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth a chynnwys y ddeddfwriaeth honno.

2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

Yn allanol

Galwad am dystiolaeth

8. Wrth ddatblygu'r polisi i lunio Papur Gwyn i ymgynghori arno, dechreuodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfnod trafod anffurfiol gyda'r sefydliadau sy'n dod o dan system Safonau'r Gymraeg ym mis Chwefror a Mawrth 2017. Defnyddiwyd yr ymatebion a ddaeth i law i ddatblygu'r cynigion yn ein Papur Gwyn ar gyfer yr ymgynghoriad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gellir ei weld yma:

<http://gov.wales/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Cyfathrebu

9. Lluniwyd Cynllun Cyfathrebu llawn wrth baratoi ar gyfer ymgynghori ar ein Papur Gwyn.

10. Rhoddwyd sylw penodol yn y Cynllun Cyfathrebu i'r camau y bydd angen eu cymryd i glywed barn unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig neu'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Ynghyd â'r ymatebion eraill, bydd y sylwadau hyn yn llywio datblygiad y polisi ar gyfer Bil y Gymraeg.

Yn fewnol

Bwrdd Prosiect

11. Sefydlwyd bwrdd prosiect mewnol i oruchwylio'r gwaith o adolygu'r Mesur. Rôl y Bwrdd yw dod â rhanddeiliaid mewnol allweddol ynghyd i roi cyngor a sicrwydd i'r

prosiect. Mae aelodau'r bwrdd prosiect wedi cael eu dewis i gynrychioli ystod eang o ddisgyblaethau a meysydd polisi o bob cwr o Lywodraeth Cymru.

3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?

12. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi braslun o'r prif seiliau tystiolaeth a ddefnyddiom i ddatblygu ein cynigion.

Galwad am dystiolaeth

13. Fel y nodir o dan bennawd 2 yr Asesiad hwn, defnyddiwyd tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'n galwad am dystiolaeth i lywio'r gwaith o lunio polisi ein Papur Gwyn.

Cymraeg 2050

14. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (o dan a.78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006) yn ffurfio cyd-destun strategol allweddol ar gyfer ein cynigion yn y Papur Gwyn. Gellir gweld y strategaeth derfynol yma:

<http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy>

15. Cyn cyhoeddi'r strategaeth yn gynharach eleni, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar *Cymraeg 2050* rhwng mis Awst a mis Hydref 2016. Cynhaliwyd ymgynghoriad ehangach hefyd gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth derfynol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, ymdrechwyd i geisio barn unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig. Lluniwyd dogfen ymgynghori hawdd ei deall a chynhaliwyd grwpiau ffocws.
16. Mae adroddiad sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ac sy'n crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru: https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170110-consultation-responses-cy.pdf.
17. Manteisiwyd ar amrywiaeth o waith ymchwil cyhoeddedig i ddatblygu'r cynigion polisi sydd i'w gweld yn y Papur Gwyn. Rhestrir rhai o'r prif ffynonellau isod.

Arolygon, ymchwil ac adroddiadau

- Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15 (<http://gov.wales/docs/statistics/2016/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf>);
- Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015 (<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mlynedd%20-%205-year%20Report.pdf>);
- Y Gymraeg yn y fasedg siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd (<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Archfarchnadoedd%20Cymraeg.pdf>);
- Adroddiadau blynyddol iaith fyw: iaith byw

<http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/welsh-language-policies-upto-2017/wl-strategy-annual-report/?skip=1&lang=cy>

- Adolygiad statudol i wasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr yng Nghymru (<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Arolwg%20statudol%20banciau.pdf>).

Adroddiadau Seneddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan

- Gwireddu'r Uchelgais: Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11046/cr-ld11046-w.pdf>);
- The Regulatory State: Ensuring its Accountability, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad (<https://www.publications.parliament.uk/pa/ld200304/ldselect/ldconst/68/68.pdf>);

Gwaith academiaidd

- *The Welsh Language Commissioner in Context*, Diarmait Mac Giolla Christ, Gwasg Prifysgol Cymru, 2016
- *Minority Language Promotion, Protection and Regulation: The Mask of Piety*, Colin H. Williams, Palgrave, 2013

Bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd

18. Yn ein Papur Gwyn, rydym yn cynnig cadw system Safonau'r Gymraeg fel y ffordd orau o sicrhau hawliau i bobl gael gwasanaethau Cymraeg. Er hynny, rydym yn cydnabod y prinder o ddata meintiol ar hyn o bryd ynghylch y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg. Wrth inni ddatblygu ein cynigion ymhellach, bydd y data hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos effaith ein deddfwriaeth a'n polisiau. Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i sicrhau bod y data hyn yn cael eu casglu a'u cyhoeddi i'r cyhoedd fel mater o drefn.
19. Ochr yn ochr â'r bylchau yn y data sydd ar gael ynghylch y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd casglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, ynghyd â sgiliau'r unigolion a gaiff eu recriwtio i'r gweithlu o'r newydd. Mae'n ofynnol i nifer o'r cyrff sy'n dod o dan y Safonau ar hyn o bryd gasglu'r data hyn fel rhan o'r safonau cadw cofnodion y disgwylir iddynt eu bodloni. Mae rhai cyrff yn dechrau cyhoeddi peth o'r data hyn yn eu hadroddiadau blynyddol statudol o dan y Safonau. Wrth inni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn mynd ati i gasglu'r data mewn ffordd systematig er mwyn adeiladu sylfaen o dystiolaeth sy'n cefnogi ein cynigion.
20. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac ar ôl inni lunio cynigion pendant ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth newydd, fe wnawn gynnal Aseiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad llawn o'r costau a'r manteision. Bydd hyn yn rhoi'r dystiolaeth inni o ran unrhyw arbedion neu gostau a fyddai'n codi o'n cynigion.

Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleodd a welsoch a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.

Effaith

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y canllawiau ar yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal Aseiad. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau a welsoch yn y dystiolaeth. Dywedwch a yw'n fwriad gennych i lenwi'r bylchau hyn, ac os felly, sut?

Nid yw'r Papur Gwyn yn cynnwys unrhyw gynigion sy'n ymwneud â grwpiau penodol o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae crynswth y cynigion yn y Papur Gwyn yn seiliedig ar newid systemaidd i Safonau'r Gymraeg, a newidiadau strwythurol o ran y ffordd rydym yn cyflawni gwaith i hybu'r Gymraeg.

4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|--|------------|----------|--------------|--|
| Pobl iau (<i>Plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed</i>) | √ | | | Nid ydym wedi nodi unrhyw ffyrdd y gallai'r cynigion yn ein Papur Gwyn effeithio ar bobl oherwydd eu hoed yn benodol. |
| Pobl 18-50 oed | √ | | | Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd oedran unigolyn. Nododd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y Gymraeg i bobl agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, pobl sydd â dementia neu wedi cael strôc, ac i blant a phobl ifanc yn <i>Mwy na geiriau.... Fframwaith Strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.</i> |
| Pobl hŷn (50+) | √ | | | |

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | <p>Gallai ein cynigion ar gyfer symleiddio'r ffordd y mae system Safonau'r Gymraeg yn gweithio gael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc, a phobl hŷn drwy roi mwy o eglurder ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Mae ein Papur Gwyn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gyfuno'r dull presennol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg) â'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig. Bydd y maes hwn yn destun gwaith datblygu polisi pellach yn dilyn y cyfnod ymgynghori.</p> <p>Llenwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd. Mae hwn yn ystyried yr effaith bosib y gallai ein cynigion ei chael ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o safbwynt Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. I gael manylion llawn yr effaith gadarnhaol y gallai ein cynigion ei chael ar blant, gweler casgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.</p> |
|--|--|--|--|---|

4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|--------------------|------------|----------|--------------|---|
| Nam ar y golwg | √ | | | Nid ydym wedi nodi unrhyw ffyrdd y gallai'r cynigion yn ein Papur Gwyn effeithio ar bobl yn benodol oherwydd unrhyw anabledd sydd ganddynt. |
| Nam ar y clyw | √ | | | |
| Anabledd corfforol | √ | | | |
| Anabledd dysgu | √ | | | |

| | | | | |
|-----------------------|---|--|--|--|
| Problem iechyd meddwl | √ | | | Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd anabledd unigolyn. |
| Namau eraill | √ | | | <p>Nododd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y Gymraeg i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn <i>Mwy na geiriau.... Fframwaith Strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.</i></p> <p>Gallai ein cynigion ar gyfer symleiddio'r ffordd y mae system y Safonau yn gweithio gael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl drwy roi mwy o eglurder ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. O ystyried effaith anghymesur y Gymraeg ar les y bobl hyn, gallai ein cynigion gael mwy o effaith gadarnhaol arnyn nhw na gweddill y boblogaeth yn gyffredinol.</p> <p>Rydym yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebodd y rheini oedd yn defnyddio rhaglen darllen sgrin neu sydd ag anableddau dysgu lle'r oedd negeseuon yn ddwyieithog (mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Rhan 2 o'r asesiad hwn). Credwn y gallai gofynion cyfreithiol (fel y rhai yn y Safonau ar hyn o bryd) i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog i bobl gyflymu'r broses o gyflwyno technolegau newydd y gellir eu defnyddio yn Gymraeg, er enghraifft testun-i-lais. Yn y tymor hir, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r peiriannau hyn (neu debyg) i gyfathrebu gan</p> |

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sydd â nam ar y golwg yn gallu defnyddio'r peiriannau hyn yn eu hiaith eu hunain. Trafodir yr effaith ar unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg a'r camau y cynigiwn eu cymryd i ymateb i hynny yn Rhan 2. |
|--|--|--|--|---|

4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|-------|------------|----------|--------------|--|
| Gwryw | √ | | | Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i bobl o un rhywedd yn unig, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar bobl o rywedd penodol. |
| Benyw | √ | | | Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd rhywedd unigolyn. |

4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|-------------|------------|----------|--------------|---|
| | √ | | | Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i bobl drawsryweddol yn unig, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar bobl drawsryweddol. Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i |

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd bod unigolyn yn drawsryweddol. |
|--|--|--|--|---|

4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|-------------------------------|------------|----------|--------------|---|
| Priodas | √ | | | Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn unig, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd bod unigolyn yn briod neu mewn partneriaeth sifil. |
| Partneriaeth sifil | √ | | | |

4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---------------------------------|------------|----------|--------------|---|
| Beichiogrwydd | √ | | | Gallai ein cynigion i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni i hybu'r Gymraeg a sicrhau bod y seilwaith cywir ar waith er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg sydd |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | √ | | | |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | <p>ar gael i fenywod beichiog ac sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.</p> <p>Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd bod unigolyn yn feichiog neu wedi cael babi.</p> |
|--|--|--|--|--|

4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|------------|----------|--------------|--|
| Pobl o leiafrifoedd ethnig (e.e. Asiaidd, Du. | √ | | | <p>Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i hil yn benodol, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar unigolyn oherwydd ei hil.</p> <p>Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd hil unigolyn.</p> <p>Un o amcanion y polisi hwn yw sicrhau bod y seilwaith cywir ar waith i hybu'r Gymraeg ledled Cymru. Gallai hyn ddod â chymunedau o bob hil yn nes at ei gilydd.</p> |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | √ | | | |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | √ | | | |
| Sipsiwn a Theithwyr | √ | | | |
| Mudwyr | √ | | | |
| Eraill | √ | | | |

4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|----------------------------------|------------|----------|--------------|--|
| | | | | |

| | | | | |
|--|---|--|--|--|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Arall (nodwch). | √ | | | <p>Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i grefydd neu ddiffyg cred yn benodol, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar unigolyn oherwydd ei grefydd, cred neu ddiffyg cred.</p> <p>Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd crefydd, cred neu ddiffyg cred unigolyn.</p> |
| Cred e.e. Dyneiddwyr. | √ | | | |
| Diffyg cred | √ | | | |

4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|----------------------|------------|----------|--------------|--|
| Dynion hoyw | √ | | | <p>Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i gyfeiriadedd rhywiol yn benodol, ac ni nodwyd unrhyw effaith ar unigolyn oherwydd ei gyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth yn gyffredinol wrth ddarparu gwell seilwaith i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fydd yr effaith gadarnhaol hon yn lleihau oherwydd cyfeiriadedd rhywiol unigolyn.</p> |
| Lesbiaid | √ | | | |
| Deurywiol | √ | | | |

4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.*

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|--|------------|----------|--------------|--|
| Hawliau Dynol yn cynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | √ | | | <p>Gwneir cynigion yn y Papur Gwyn ynghylch sicrhau a gorfodi hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhai cyrff, ynghyd â darpariaeth ar gyfer ymchwilio i achosion o darfu ar ryddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>O ran plant, diben hyn yw cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ddarpariaeth ynghylch hawliau ieithyddol plant.</p> <p>Mae ein Papur Gwyn yn gwneud un cynnig yn benodol lle'r ydym yn trafod Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwneir y cynnig yn Rhan 4 y papur i gael gwared â'r cyfyngiadau yn y ddeddfwriaeth bresennol o ran y cyrff y gellir eu cynnwys o dan system Safonau'r Gymraeg. Yn y papur, rydym wedi cydnabod bod gosod y Safonau ar unrhyw gyrff newydd yn rhywbeth sy'n gorfod bod o fewn cymhwysedd y Cynulliad sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.</p> |

Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig, llenwch Ran 2.

Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Aseiad.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

1. 1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?
Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchoddedig?

Wrth ganolbwyntio ar sefydlu seilwaith i gyflawni'r gwaith o hybu a chefnogi'r Gymraeg ac adeiladu ar ein system o sicrhau hawliau i bobl gael gwasanaethau yn y Gymraeg, mae ein cynigion yn cyfrannu at sicrhau cydraddoldeb i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywyd bob dydd.

1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?

Mae'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn ymwneud â dyletswyddau gorfodadwy fel y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff penodol, ac fel y gall y Comisiwn ymchwilio i achosion o darfu ar ryddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych am unrhyw ffyrdd eraill y credwch y gallai ein cynigion polisi gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth.

1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Nod amcan polisi'r Papur Gwyn i geisio taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu'r Gymraeg a rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau yw cynyddu'r gwaith a wneir i hybu'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg ac unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Y bwriad yw y bydd y polisi'n gwneud ein cymunedau yn fwy cynhwysol ac yn sicrhau perthynas dda rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith a chymunedau eraill drwy wneud y Gymraeg yn fwy gweledol a chynyddu'r cyfleoedd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith, ei gweld a'i chlywed.

2. Cryfhau'r polisi

2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?

Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?

Ym mhwynt 4.2 o'r asesiad hwn, fe wnaethom amlinellu pryderon a godwyd gyda Llywodraeth Cymru o ran yr anawsterau sy'n gysylltiedig â dogfennau dwyieithog i'r rheini sydd â nam ar eu golwg sy'n defnyddio rhaglen darllen sgrin, ac anawsterau i'r rheini sydd ag anableddau dysgu.

Gall sgrolio i lawr i ddarllen neges ddwyieithog yn eu dewis iaith achosi trafferthion i bobl sydd â nam ar eu golwg sy'n darllen gwybodaeth drwy ddefnyddio rhaglen darllen sgrin. Mae'r anhawster yn codi gan nad yw unigolyn sydd â nam ar ei olwg yn gwybod pa mor isel mae angen iddo sgrolio er mwyn gweld yr iaith arall. Mae hyn yn wir p'un ai'r fersiwn Gymraeg neu'r fersiwn Saesneg sy'n ymddangos gyntaf.

Gall gosod un iaith uwchben y llall hefyd fod yn anodd i'r rheini sydd ag anableddau dysgu. Rydym wedi clywed y gall hyn arwain at ddryswch gan ei bod yn bosib nad yw'r unigolion hyn yn deall bod un iaith yn dilyn y llall mewn neges ddwyieithog.

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i arloesi digidol mewn technoleg ac mae ein Papur Gwyn yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn gyfrifol am y gwaith hwn.

Er mwyn nodi camau posib i osgoi problemau ac i sefydlu arferion da i sicrhau hwylustod, rydym wedi cyfeirio'r mater hwn at Fwrdd Technoleg y Gymraeg i nodi ffyrdd posib o ddatrys yr anawsterau a wynebwyd wrth ddefnyddio rhaglenni darllen sgrin ac wrth gyflwyno negeseuon dwyieithog ar sgriniau. Byddwn yn ystyried eu cyngor ynghylch y mater hwn ac yn cofnodi unrhyw gamau a gymerir wrth inni ddatblygu ein cynigion ar gyfer Bil arfaethedig y Gymraeg mewn Asesiad arall o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y dyfodol.

**2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.
(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)**

Amherthnasol

3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyn rhwng 9 Awst a 31 Hydref. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi i lywio ein camau nesaf ac unrhyw ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chynnig. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ailedrych ar yr asesiad effaith hwn ar ôl yr ymgynghoriad ac yn asesu effaith ein cynigion terfynol ar gydraddoldeb. Bydd yr Asesiad terfynol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â Bil y Gymraeg arfaethedig.

4. Datganiad

***Dilêwch fel sy'n briodol:**

***Mae'r / Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Enw:

Adran:

Dyddiad:

Llofnod:

Pennaeth yr Is-adran (Llofnod)

Enw:

Teitl swydd ac adran:

Dyddiad:

Llofnod:

Dyddiad adolygu: